
Adran yr Economi,
Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

# Ardaloedd Menter Cymru: Ail ddiweddariad cynnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



**Tachwedd 2014**

Cynnwys


| Adran | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cefndir a diben y ddogfen hon | 3 |
| | Mwy o wybodaeth | 4 |
| Datblygiadau a Phrosiectau mewn Ardaloedd Penodol | | |
| 2 | Ynys Môn | 5 |
| | Canol Caerdydd | 7 |
| | Glannau Dyfrdwy | 9 |
| | Glynebwy | 11 |
| | Dyfrffordd y Ddau Gleddau | 13 |
| | Eryri | 16 |
| | Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd | 18 |
| Darpariaeth Drawsbynciol i Ardaloedd Menter Cymru | | |
| 3 | Trafnidiaeth | 20 |
| | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 22 |
| | Datblygu Sgiliau | 24 |
| | Cynlluniau Ardrethi Busnes | 27 |
| | Lwfansau Cyfalaf Uwch | 29 |
| | Gorchmynion Datblygu Lleol | 29 |
| | Datblygu Busnes a Marchnata | 30 |
| | Mesur Cynnydd ar draws Ardaloedd Menter | 30 |
| | Arolwg Hydredol | 31 |
| 4 | Camau Nesaf | 31 |

## Cefndir

Yn 2012, lansiodd Llywodraeth Cymru saith **Ardal Fenter** ledled Cymru. Ardaloedd daearyddol dynodedig yw'r Ardaloedd Menter, ac maent yn cefnogi busnesau newydd a busnesau sy'n ehangu drwy ddarparu seilwaith a chymorth busnes o'r radd flaenaf.

Mae pob un o'r Ardaloedd Menter yn canolbwyntio ar o leiaf un sector busnes allweddol. Yr ardaloedd yw:

- **Ardal Fenter Ynys Môn** – yn canolbwyntio ar y sector ynni a'r amgylchedd;
- **Ardal Fenter Canol Caerdydd** – yn canolbwyntio ar y sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol;
- **Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy** – yn canolbwyntio ar y sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch;
- **Ardal Fenter Glyn Ebwy** – yn canolbwyntio ar y sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch;
- **Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau** – yn canolbwyntio ar y sector ynni a'r amgylchedd;
- **Ardal Fenter Eryri** – yn canolbwyntio ar y sectorau ynni a'r amgylchedd, TGCh ac awyrofod.
- **Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd** – yn canolbwyntio ar y sector deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch, ac yn enwedig ei is-sector awyrofod.

Mae gan bob Ardal Fenter Fwrdd Cynghori annibynnol a arweinir gan y sector preifat. Rôl y Byrddau hyn yw cynghori Llywodraeth Cymru ar gyflawni a chyflenwi cynlluniau gweithredu a blaenoriaethau ar gyfer yr Ardaloedd, gan gynnwys:

- Cyngor strategol ar gyfleoedd buddsoddi
- Hybu datblygu cadwyni cyflenwi
- Nodi anghenion o ran eiddo a seilwaith
- Marchnata a hyrwyddo'r Byrddau Menter.

## Diben y Ddogfen hon

Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr Adroddiad Diweddaru cyntaf ar Gynnydd yr Ardaloedd Menter (ar gael ar http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/business-wales/enterprisezones/?skip=1&lang=cy). Rhoddodd y ddogfen honno fraslun o'r strategaeth, y prosiectau a'r datblygiadau allweddol a nodwyd gan Fyrddau'r Ardaloedd Menter a chrynodeb o'r cynnydd o ran y gweithgareddau hyn ym mhob Ardal. Rhoddodd grynodeb hefyd o'r cynnydd o ran y gweithgareddau trawsbynciol yr oedd Llywodraeth Cymru, ei phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol yn bwrw ymlaen â hwy i gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu'r Ardaloedd ac i fesur eu cynnydd a'r ffordd yr oeddent yn cael eu cyflawni.

Mae'r ail adroddiad hwn yn nodi'r cyflawniadau diweddaraf a chynnydd allweddol ym mhob Ardal ers hynny, ac ar yr un pryd yn rhoi braslun o'r prosiectau allweddol a gaiff eu gweithredu yn y dyfodol agos ym mhob Ardal.

## Mwy o wybodaeth

I gael mwy o wybodaeth am Ardaloedd Menter Cymru, ewch i http://www.business.wales.gov.uk/enterprisezones/cy neu cysylltwch â Llinell Gymorth Gwybodaeth Busnes Llywodraeth Cymru ar 03000 6 03000.

## Ardal Fenter Ynys Môn



Y weledigaeth ar gyfer Ardal Fenter Ynys Môn yw creu canolfan ragoriaeth fyd-enwog ar gyfer cynhyrchu, arddangos a gwasanaethu ynni carbon isel. Mae'r Ardal yn canolbwyntio ar wyth safle strategol sy'n ategu Rhaglen Ynys Ynni Môn yn llawn:

- Cynhyrchu – buddsoddi mewn cynhyrchu ynni carbon isel newydd i helpu i sicrhau dyfodol ynni sefydlog i Gymru.

- Arddangos – darparu cyfleusterau heb eu hail er mwyn sefydlu Ynys Môn fel lleoliad blaenllaw ar gyfer arloesi ac arddangos ynni carbon isel.

- Gwasanaethu – sicrhau ein bod yn achub ar bob cyfle mewn perthynas â'r gadwyn gyflenwi a'u datblygu i'r eithaf.

Mae'r cynnydd diweddar yn yr Ardal i gefnogi'r amcanion hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cymeradwywyd cyllid i gynorthwyo â gwaith dylunio a chostio rhagbaratoawl ar gyfer Ffordd Gyswllt Llangefni, yng nghyd-destun y dyhead i ymestyn Parc Busnes Bryn Cefni.

- Hyrwyddiad i ddarbwyllo busnesau a datblygwyr i ystyried codi adeiladau diwydiannol ar Ynys Môn. Hyd yma mae hyn wedi arwain at dri ymholiad cychwynnol ac un cynnig pendant sydd wedi cael ei gymeradwyo ac a fydd yn cefnogi'r gwaith o adeiladu unedau â chyfanswm o 18,000 o droedfeddi sgwâr.

- Mae gwaith wedi dechrau ar ddatblygiad cwmni Conygar ym Mharc Cybi, Caergybi, sef arhosfan ar gyfer lorïau a chanolfan logisteg. Mae'r contractwyr lleol yn cynnwys Jones Brothers (Ruthin) a Watkin Jones, ac mae'r gwaith i fod i gael ei gwblhau ym mis Rhagfyr 2014.

- Mae Buddsoddiadau Cyllid Cymru wedi cymeradwyo benthyciad i gwmni Halen Môn a gaiff ei ddefnyddio i gynorthwyo â'r gwaith o ddatblygu ffatri newydd a chanolfan ymwelwyr, a fydd yn costio mwy nag £1 miliwn.

- Mae rhaglen werth miliynau o bunnoedd wedi cael ei dyfarnu i gwmni Structural Soils Ltd gan Horizon Nuclear Power i gyflawni contract am ymchwiliadau daear arbenigol. Bydd y gwaith yn parhau hyd fis Rhagfyr 2014 gyda 100 o bobl yn gweithio ar y safle; mae mwy na 25 o gontractwyr lleol yn cael budd o'r rhaglen hon.

- Mae Horizon Nuclear Power wedi cynyddu nifer ei staff ar Ynys Môn i gynnwys tri pheiriannydd prosiect profiadol a thîm diogelwch newydd gan gwmni G4S o ddeuddeg o bobl ar safle Wylfa Newydd. Mae'r peirianwyr prosiect yn ychwanegu at dîm craidd Horizon a byddant yn helpu i oruchwylio'r gwaith paratoadol ac astudiaethau ymchwilio parhaus.

- Mae Llywodraeth Cymru ar y cyd gyda Horizon Nuclear Power a Rhaglen Ynys Ynni Môn yn cynnig sesiynau blasu am ddim i ddatblygu gallu busnesau i fod yn barod fel rhan o'r cynllun peilot cychwynnol. Mae'r cynllun peilot hwn yn ategu'r rhaglenni datblygu cyflenwyr sy'n bodoli eisoes, a'i fwriad yw helpu busnesau lleol a rhanbarthol ar Ynys Môn ac ar draws Gogledd Cymru, yn y sector adeiladu a gwasanaethau adeiladu, i wella eu hymwybyddiaeth o'r sgiliau busnes y mae eu hangen i fod yn barod i gystadlu am waith a fydd yn gysylltiedig â Phrosiect Wylfa Newydd yn y dyfodol. Mae'r rhaglen beilot yn cynnwys pum gweithgaredd, y bydd pob un ohonynt yn cael ei gynnal ddwywaith rhwng Hydref 2014 a Mawrth 2015 mewn lleoliadau ar draws Gogledd Cymru.

- Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi cymeradwyo newidiadau i'r orsaf biomas fawr a pharc eco (a gynigiwyd gan gwmni Lateral Power) ar hen safle Alwminiwm Môn ger Caergybi. Gallai'r datblygiad greu hyd at 400 o swyddi newydd a 600 o swyddi ychwanegol yn ystod y cyfnod adeiladu.

- Mae perthnasoedd gwaith agos wedi cael eu cynnal gyda rhanddeiliaid allweddol a phartneriaid gan gynnwys Ynys Ynni i hyrwyddo a datblygu'r Ardal Fenter.

## Ardal Fenter Canol Caerdydd



Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer Ardal Fenter Canol Caerdydd yw helpu i greu un o leoliadau mwyaf blaenllaw'r Deyrnas Unedig i'r sector gwasanaethau ariannol a phroffesiynol, gyda'r nod o ddenu buddsoddiad newydd, hwyluso datblygiad swyddfeydd newydd o ansawdd da a mathau eraill o seilwaith ategol, a chreu swyddi cynaliadwy newydd o ansawdd da. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwneud y gorau o fanteision cystadleuol a rhinweddau presennol y ddinas.

- Helpu i ddarparu datblygiadau newydd o ansawdd da sy'n diwallu anghenion busnesau modern.

- Cynorthwyo busnesau, yn enwedig trwy becynnau hyfforddiant ac addysg newydd a gwell ar gyfer busnesau sy'n symud i'r Ardal Fenter.

- Sicrhau ac adeiladu ar y cysylltiadau trafnidiaeth presennol – yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

- Adeiladu ar y seilwaith TGCh presennol a seilwaith cyfleustodau ategol eraill, gan alluogi Caerdydd i ddod yn ddinas â chysylltiadau gwych.

- Manteisio ar y buddion a manteision economaidd a gynigir gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd a chreu ffyniant i'r Rhanbarth.

Mae'r cynnydd diweddar yn yr Ardal i gefnogi'r amcanion hyn yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r cwmni rhyngwladol sy'n darparu cyngor i fusnesau, Deloitte, i fod i greu hyd at 700 o swyddi wrth iddo baratoi i arallgyfeirio ac ehangu ei Ganolfan Ragoriaeth gweithrediadau busnes yn yr Ardal.
- Caffael Adeilad 1 Cwr y Ddinas ym mis Mawrth 2014. Mae'r adeilad, a agorwyd gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ym mis Mehefin 2014, yn darparu 80,000 o droedfeddi sgwâr o le o'r radd flaenaf i fusnesau, ac mae'r rhan fwyaf o'r adeilad wedi cael ei gosod eisoes.
- Cwblhau gwerthu safle Llywodraeth Cymru ar Herbert Street ym mis Ebrill 2014 i gwmni J R Smart Ltd ar gyfer datblygiad newydd sy'n gysylltiedig â Chwr y Ddinas.
- Cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwaith o gwblhau ac agor pont newydd o'r math diweddaraf i gerddwyr, sy'n cysylltu Cwr y Ddinas â chanol y ddinas ar hyd Pellet Street.
- Ym mis Mehefin 2014 a gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, dechreuodd cwmni J R Smart Ltd ar y gwaith o adeiladu ei brosiect hapfasnachol, 84,000 o droedfeddi sgwâr o swyddfeydd o'r radd flaenaf, sef Adeilad 2 Cwr y Ddinas.
- Penodi contractwr i fwrw ymlaen â chynllun 90,000 o droedfeddi sgwâr o swyddfeydd o'r radd flaenaf ar ran o safle EO4, Sgwâr Callaghan.
- Mae'r cwmni datblygu preifat Rightacres wedi dechrau ar y gwaith o adeiladu swyddfeydd newydd o'r radd flaenaf 135,000 o droedfeddi sgwâr yn y Sgwâr Ganolog.
- Mae Network Rail wedi cyhoeddi ei gynigion cychwynnol o ran creu gweledigaeth ar gyfer ailddatblygu Gorsaf Caerdydd Canolog. Gallai hyn arwain at welliannau newydd sylweddol i'r orsaf a mwy na 340,000 o droedfeddi sgwâr o arwynebedd llawr newydd ar gyfer swyddfeydd a manwerthu at ddefnydd busnesau. Mae'r achos busnes yn cael ei ddatblygu i sicrhau cyllid gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar gyfer y prosiect.

## Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy



Mae Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy yn cwmpasu un o ardaloedd cyflogaeth pwysicaf y Gogledd; ardal sy'n ymestyn o Bont Sir y Fflint yn y gogledd, ar hyd afon Dyfrdwy i Frychdyn. Yn yr Ardal mae'r safleoedd sy'n gysylltiedig â sawl cwmni angori, cyflogwyr allweddol a sgiliau sy'n hollbwysig i economi Cymru, gan gynnwys:

- Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, sy'n darparu dros 9,000 o swyddi ar y safle.
- Cyflogwyr o bwys sy'n cynnwys Airbus, Toyota, UPM a Tata Steel. Mae Airbus yn cyflogi tua 6,000 o staff, gyda 2,000 o isgontractwyr a chyflenwyr eraill ar y safle yng Nglannau Dyfrdwy a'r cyffiniau.
- Porth y Gogledd, y safle datblygu defnydd cymysg mwyaf yng Nghymru.

Uchelgais yr Ardal Fenter yw sicrhau a pharhau â'r broses o drawsnewid sy'n helpu i wneud Glannau Dyfrdwy yn ardal heb ei hail ar gyfer gweithgynhyrchu uwch a thechnoleg. Bydd hon yn ardal lle mae rhagoriaeth gydnabyddedig wedi'i hangori ym meysydd awyrofod, peirianneg fodurol a pheirianneg prosesau, electroneg, cynhyrchion fferyllol, adeiladu, bwyd, papur a phecynnu ac ynni cynaliadwy.

Mae'r cynnydd diweddar yn yr Ardal i gefnogi'r amcanion hyn yn cynnwys y canlynol:

- Mae astudiaeth ar gysyniad Canolfan Sgiliau a Thechnoleg Gweithgynhyrchu Uwch wedi cael ei chwblhau. Sefydlwyd is-grŵp i fwrw ymlaen â'r cysyniad, sydd wedi arwain at gomisiynu astudiaeth fanwl i edrych ar gyfres o opsiynau.

- Gwnaethpwyd cynnydd gyda phroblemau seilwaith Porth y Gogledd. Mae contract wedi cael ei ddyfarnu i gyflawni gwaith hanfodol o ran amddiffyn rhag llifogydd a fydd yn caniatáu datblygu'r safle ac yn gwarchod y seilwaith sy'n bodoli eisoes. Mae'r gwaith hwn i fod i gael ei gwblhau erbyn gwanwyn 2015.

- Mae cynllun eiddo hapfasnachol yn cael ei hyrwyddo'n egnïol. Mae trafodaethau cynnar ar y gweill gyda nifer o ddatblygwyr.

- Cafodd Cynllun Rhannu Prentisiaeth Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy ei gyhoeddi gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau ym mis Mehefin ac mae'n cael ei hyrwyddo ar gyfer recriwtio ym mis Medi 2015.

- Cynhaliwyd ymgyrchoedd marchnata mewn lleoliadau amlwg yn Lerpwl a Manceinion, ac mae'r Ardal Fenter wedi bod yn ganolog i'n hyrwyddiadau mewn arddangosfeydd a digwyddiadau sy'n gysylltiedig â Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch.

- Mae cwmni Cytori Therapeutics yn symud o'r Swistir i Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy i sefydlu ei bencadlys Ewropeaidd, gan greu 30 o swyddi.

- Yn gynharach eleni cyhoeddodd Carey Glass, y cwmni prosesu gwydr annibynnol mwyaf yn Ewrop, gynlluniau i sefydlu canolfan cynhyrchu newydd fawr ar Barc Busnes Penarlâg yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy a fydd yn creu 80 o swyddi newydd.

- Mae cwmni KK Fine Foods yn creu 90 o swyddi yn yr Ardal gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru a Chyllid Cymru.

- Mae Calbee Inc., y cwmni cynhyrchu byrbrydau sawrus mwyaf yn Japan, yn buddsoddi yn Ewrop am y tro cyntaf trwy agor ffatri newydd yn yr Ardal, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru, gan greu mwy na 100 o swyddi.

- Mae pecyn gwerth £8.1 miliwn ar gyfer hyfforddiant wedi cael ei ddyroddi i gwmni Airbus ym Mrychdyn yn yr Ardal. Bydd y cyllid yn para am bum mlynedd a bydd yn cynorthwyo â hyfforddi'r gweithlu i fanteisio ar fuddsoddiad Airbus mewn technoleg newydd ar y safle.

- Mae Raytheon yn ail-fuddsoddi ac yn ehangu ei ffatri Awyrennau Cyrchoedd Arbennig ym Mrychdyn i ddod yn bencadlys i'r busnes Atebion Awyrennol. Bydd y buddsoddiad, sy'n werth tua £1 miliwn ac sy'n cael ei gefnogi gan gyllid busnes oddi wrth Lywodraeth Cymru, yn creu Canolfan Ragoriaeth ar gyfer dylunio a rheoli rhaglenni i gwsmeriaid yn y Deyrnas Unedig a chwsmeriaid rhyngwladol, yn ogystal â gweithgareddau ymchwil a datblygu a fydd yn creu 50 o swyddi medrus iawn.

- Cymerodd Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy ran yng Ngŵyl Fusnes Lerpwl ym mis Gorffennaf 2014.

## Ardal Fenter Glyn Ebwy



Mae gan Lynebwy a'r cyffiniau dreftadaeth ddiwylliannol gref a hanes hir o weithgynhyrchu. Mae'r ardal eisoes yn gartref i gwmnïau rhyngwladol blaenllaw megis Tenneco, Yuasa Battery, Continental Teves, Northern Automotive Systems, G-TEM, Penn Pharma a Monier Redland.

Mae Ardal Fenter Glyn Ebwy yn cynnwys pum ardal â chyfanswm o tua 40 hectar o dir y gellir ei ddatblygu: -

- Rhyd-y-Blew
- Safle Y Gweithfeydd
- Parc Busnes Tredegar
- Ystad Ddiwydiannol Rasa
- Bryn Serth

Mae yna bosibilrwydd hefyd y gall safle datblygu arall fod ar gael yn yr Ardal yn y dyfodol, os bydd prosiect Cylchdaith Cymru yn llwyddo i fynd drwy ei gyfnod datblygu.

Rhyd-y-blew yw un o'r safleoedd datblygu mwyaf o'i fath yn y Cymoedd, ac mae ganddo fynediad rhagorol a'r potensial ar gyfer seilwaith gwych. Dyma'r prif safle datblygu yn yr Ardal, a gellid ei ddefnyddio ar gyfer prosiectau buddsoddi ar raddfa fawr. Bydd y pedwar safle allweddol arall yn addas ar gyfer denu pob math o fuddsoddiadau mawr a bach.

Bydd datblygiad Ardal Fenter Glyn Ebwy yn adeiladu ar hanes llwyddiannus yr ardal o gyflawni prosiectau gweithgynhyrchu er mwyn creu parth uwch-dechnoleg bywiog gyda'r gorau yn y byd i gwmnïau cynhyrchu yng Nghymru. Bydd yr Ardal yn denu busnesau o bob maint yn cwmpasu llawer o wahanol is-sectorau allweddol, gan ddarparu swyddi sy'n cyflwyno her, sy'n rhoi boddhad ac sy'n cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r cynnydd diweddar yn yr Ardal i gefnogi'r amcanion hyn yn cynnwys y canlynol:

- Gwnaethpwyd cynnydd gyda gwaith paratoi safleoedd ledled yr Ardal i sicrhau bod pob un o'r pum safle allweddol yn barod i fuddsoddi ynddo.

- Rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn ar gyfer gwaith seilwaith Rhyd-y-Blew yng ngwanwyn 2014 i hwyluso'r gwaith o ddatblygu'r safle strategol hwn.

- Gosod priffyrdd ac arwyddion gwybodaeth penodol i safleoedd i gynorthwyo â'r gwaith o farchnata'r Ardal.


- Mae'r gwaith o ddatblygu ffordd ddeuol newydd yr A465, gan ddarparu mynediad uniongyrchol i'r Ardal, ar y gweill eisoes, gyda buddsoddiad o £40 miliwn.

- Datblygu estyniad gwerth £11 miliwn i'r llinell reilffordd o Barcffordd Glynebwy i safle Gweithfeydd Glynebwy, gan ddarparu mynediad uniongyrchol ar hyd y rheilffordd i'r Ardal.

- Mae nifer o gwmnïau yn yr Ardal wedi cael cymorth gan Lywodraeth Cymru gan gynnwys Express Contract Drying, Tilon Composites a DT Civils, sydd i gyd yn ehangu eu gweithrediadau.

- Yn gynnar yn 2014, comisiynwyd Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd (UHOVI) gan Fwrdd Ardal Fenter Glyn Ebwy i gynnal arolwg o anghenion hyfforddiant a sgiliau cwmnïau gweithgynhyrchu preifat yn yr Ardal Fenter a'r cyffiniau ym Mlaenau'r Cymoedd. Mae canfyddiadau'r adroddiad yn cael eu hystyried gan y Bwrdd ar hyn o bryd.

## Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau



*Tyrbin Ffrwd Llanw DeltaStream – y generadur ynni llanw maint llawn cyntaf yng Nghymru, a ddadorchuddiwyd ym mis Awst 2014*

Mae Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn cynnwys nifer o safleoedd allweddol sy'n ymestyn o ardal Aberdaugleddau ei hun i ardaloedd cyfagos Honeyborough, Thornton a Maes Awyr Hwlffordd. Mae'r Ardal yn cynnig y canlynol i gwmnïau ynni adnewyddadwy a thraddodiadol: sylfaen ddiwydiant a chadwyn gyflenwi sefydledig, ynghyd â gweithlu medrus, seilwaith dosbarthu sefydledig, detholiad o safleoedd i ddiwallu anghenion amrywiol a rhwydwaith o brifysgolion ag arbenigedd mewn amrywiaeth o feysydd sy'n gysylltiedig ag ynni. Mae'r gwaith o greu Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau yn seiliedig ar y weledigaeth o fuddsoddi rhagor mewn prosiectau ynni, creu swyddi gwyrdd ynghyd â datblygu a gwella swyddi sy'n bodoli eisoes yn y sector ynni.

Dyma'r weledigaeth ar gyfer yr Ardal Fenter:

- Dod â safle Waterston i'r farchnad yn dilyn rhaglen o waith paratoi.
- Datblygu pecynnau hyfforddiant arbenigol wedi'u teilwra, sy'n gysylltiedig ag ynni, yn yr Ardal gan weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid.
- Datblygu Canolfan Ragoriaeth Forol ac Ynni gan weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid.
- Gwell cysylltiadau ffordd – yn enwedig rhagor o welliannau i'r A40.

Mae'r cynnydd diweddar yn yr Ardal i gefnogi'r amcanion hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cafodd safle Waterston ei farchnata a daeth 5 cynnig i law. Mae cynigydd a ffefrir wedi cael ei nodi ac mae gwaith diwydrwydd dyladwy ar y gweill ar hyn o bryd.

- Mae ffiniau'r Ardal wedi cael eu hymestyn i ganiatáu i fwy o fusnesau lleol gael budd o statws Ardal Fenter a chynyddu'r potensial i ddenu mwy o fuddsoddiad. Gellir gweld ffiniau newydd yr Ardal ar http://www.business.wales.gov.uk/enterprisezones/cy. Yn dilyn y cyhoeddiad ynghylch Murco, mae'r Bwrdd yn cynnal adolygiad arall o'r ffiniau, a gaiff ei anfon ymlaen at y Gweinidog i gael ei ystyried.

- Cafodd gwelliannau i'r A477, rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd, eu cwblhau ym mis Ebrill, gan wella'n sylweddol y mynediad i'r Ardal ac ohoni ar hyd y ffordd, gyda buddion cadarnhaol i'r boblogaeth a busnesau lleol. Mae'r Gweinidog wedi gofyn i swyddogion wneud rhagor o waith ar frys i edrych ar ffyrdd ychwanegol o wella'r A40, gan gynnwys posibilrwydd gwaith deuoli. Mae'r gwaith ymchwilio i fod i gael ei gwblhau cyn pen 6 mis.

- Dadorchuddio Tyrbin Ffrwd Llanw DeltaStream, y generadur ynni llanw maint llawn cyntaf yng Nghymru, ym mis Awst 2014. Mae cytundeb wedi cael ei lofnodi i werthu'r trydan a gynhyrchir i EDF am gyfnod o ddeuddeng mis. Bydd y parth arddangos ynni'r tonnau yn y môr ger De Sir Benfro yn galluogi sefydliadau lleol i reoli ac isosod rhannau o wely'r môr i amrywiaeth o ddatblygwyr ynni'r tonnau a ffrwd llanw am y tro cyntaf.

- Croesawodd Aberdaugleddau ryw 5,000 o fordeithwyr yn yr haf eleni ar gyfer tymor mordeithiau 2014. Mae Llywodraeth Cymru, *Cruise*Cymru, Cyngor Sir Penfro a Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro wedi bod yn gweithio'n agos gyda Phorthladd Aberdaugleddau i wella profiad yr ymwelydd a denu hyd yn oed mwy o longau a theithwyr.

- Mae cwmni Genpower wedi sicrhau pecyn cyllid gwerth £1.5 miliwn i greu 35 o swyddi a chynorthwyo â phrynu ei bencadlys 110,000 o droedfeddi sgwâr yn Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau.

- Mae cwmni Consort Equipment Products yn buddsoddi £1 miliwn yn ei bencadlys yn Aberdaugleddau.

- Aeth saith cwmni o Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau i Gynhadledd ac Arddangosfa Flynyddol Renewable UK, 11-13 Tachwedd, ym Manceinion, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru.

- Mae Bwrdd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau wedi hwyluso cyfarfodydd rheolaidd i ddarparu llwyfan i fusnesau bach a chanolig cynhenid yn y gadwyn gyflenwi ynni fel y gallant rwydweithio, rhannu arferion gorau a chanfod synergedd mewn cydweithio. Cynhaliwyd seminar ar Nodau CE, a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru, yn yr Ardal a daeth busnesau lleol iddo.

- Yn dilyn cefnogaeth ac anogaeth gan Fwrdd yr Ardal Fenter, cynhaliodd Gyrfa Cymru ddigwyddiad ar y cyfleoedd i weithio yn y sector ynni, y sector morol a'r sector peirianneg. Daeth mwy na 200 o blant ysgol / myfyrwyr coleg iddo.

Yn dilyn y cyhoeddiad ynghylch Murco, mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi sefydlu Tasglu i sicrhau’r cymorth mwyaf posibl y gall Llywodraeth Cymru ei roi i’r rheiny y mae hyn yn effeithio arnynt yn uniongyrchol ac i’r ardal ehangach.

## Ardal Fenter Eryri



Mae Ardal Fenter Eryri'n cynnwys dau safle: safle datgomisiynu Trawsfynydd gyda'i seilwaith ynni rhagorol, a Chanolfan Awyr a Pharc Menter Llanbedr, sy'n gallu cynnig darpariaeth ar gyfer mentrau ochr yr awyr a mentrau eraill a'r potensial i gynyddu gallu Cymru ym maes Systemau Cerbydau Awyr a Reolir o Bell (RPAS).

Y nod yw sicrhau bod y seiliau'n cael eu gosod a bod amodau'n cael eu sefydlu ar y ddau safle i feithrin twf economaidd cynaliadwy a buddsoddiad gan y sector preifat. Mae asedau unigryw y ddau safle'n cael eu hadlewyrchu gan ffocws ar draws sectorau allweddol, gan gynnwys Ynni a'r Amgylchedd, TGCh ac Awyrofod. Mae eu statws fel safleoedd strategol allweddol yn eu gwneud nhw'n sbardunau economaidd pwysig i'r dyfodol ar gyfer yr ardal ehangach.

Hefyd, ymgysylltodd Bwrdd yr Ardal Fenter, gan gynnwys partneriaid allweddol, gyda'r broses cystadlu a arweiniwyd gan yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear (NDA) ac erbyn hyn mae'n ymgysylltu â'r Sefydliad Corff Rhiant sydd newydd ei benodi ac sy'n goruchwylio gweithgarwch datgomisiynu ledled ei ystâd. Y nod yw sicrhau y gall y Sefydliad Corff Rhiant newydd sicrhau'r buddion economaidd-gymdeithasol mwyaf posibl i'r ardal, er enghraifft trwy ryddhau tir a chyfleoedd cadwyn gyflenwi.

Dyma'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer Ardal Fenter Eryri:

- Bydd Eryri yn lleoliad a ffefrir ar gyfer mentrau digidol, carbon isel ac awyrofod-gysylltiedig o ansawdd da.
- Bydd yr Ardal yn manteisio'n llawn ar ei nodweddion unigryw; gan gynnwys ei seilwaith ynni, sydd o bwys cenedlaethol, a'i lleoliad yng nghanol y Parc Cenedlaethol.
- Bydd yr Ardal yn adeiladu ar gryfderau ei sail gwybodaeth a sgiliau er mwyn gwneud cyfraniad cadarnhaol at ragolygon economaidd yr ardal.

Mae'r cynnydd diweddar yn yr Ardal i gefnogi'r amcanion hyn yn cynnwys y canlynol:

- Asesiad o'r Opsiynau Strategol ar gyfer safle Trawsfynydd ac Uwchgynllun safle Llanbedr wedi cael eu cwblhau. Mae'r ddau'n hanfodol er mwyn darparu gwybodaeth i Fwrdd yr Ardal Fenter a Llywodraeth Cymru yn nhermau datblygu'r Ardal yn y dyfodol.
- Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu cynigion manwl ymhellach ar gyfer opsiynau a ffefrir ar safle Trawsfynydd, wedi'u halinio â'r sectorau TGCh ac Ynni a'r Amgylchedd.
- Ailagor cyfleusterau ar Lyn Trawsfynydd fel rhan o raglen fuddsoddi 'Un Antur Fawr' werth £4 miliwn i sefydlu'r ardal fel cyrchfan antur awyr agored gyda'r gorau yn y byd.
- Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi sefydlu Galluogrwydd Gweithredu Cychwynnol (IOC) ar safle Llanbedr trwy fuddsoddi mewn seilwaith allweddol yno. Mae adnewyddu'r tŵr rheoli, er enghraifft, yn ganolog i lwyddiant datblygu ac integreiddio prosesau a gweithdrefnau ar gyfer gweithrediadau hediadau profi, gan roi arwydd o ailagor Maes Awyr Llanbedr fel canolfan ragoriaeth ar gyfer systemau awtonomaidd ac ehangu galluogrwydd Cymru ym maes systemau cerbydau awyr a reolir o bell.
- Cynnal Diwrnod Ymgysylltu â Phobl Ifanc yn llwyddiannus ar safle Llanbedr i arddangos Ardal Fenter Eryri, gan roi braslun o'r cyfleoedd posibl o ran gyrfaoedd mewn gwyddoniaeth a pheirianneg sydd ar gael i fyfyrwyr ym Meirionnydd.
- Mae Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'i phartneriaid Llanbedr Airfield Estates a QinetiQ, wedi ymrwymo'n llwyr i helpu'r Deyrnas Unedig i wireddu ei gweledigaeth i sefydlu Canolfan Awyrennau Gofod gyntaf Ewrop. Mae partneriaid yn cydweithio i ymchwilio i'r cyfle unigryw hwn a allai drawsnewid rhagolygon economaidd y rhanbarth a rhoi Cymru ar flaen y gad yn sector gofod y Deyrnas Unedig a'r byd, sy'n tyfu'n gyflym.
- Canolbwyntio ar gysylltiadau trafnidiaeth gwell trwy ddechrau ar waith paratoi ar gyfer gwelliannau ffordd ar gyffordd yr A496 i Flaenau Ffestiniog ym Maentwrog a gwell mynediad i safle Llanbedr.
- Hyrwyddo'r Ardal yn llwyddiannus mewn digwyddiadau masnach allweddol fel Sioe Awyr Farnborough, gan ddwyn Eryri i sylw cynulleidfa fyd-eang.

## Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd



Mae Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd yn amgylchedd unigryw ar gyfer busnesau Awyrofod yng Nghymru, ac mae'n cynnwys tair rhan unigryw.

- Mae Maes Awyr Caerdydd yn cynnig cyfleoedd ar gyfer busnes a thwristiaeth yng Nghymru. Mae gan y safle y gallu i ddatblygu mentrau cludo nwyddau a llwythi i gefnogi'r gadwyn gyflenwi leol.

- Y rhaglen Gateway Commercial sydd â'r potensial i greu amgylchedd swyddfa o ansawdd da, cyfleusterau cludo nwyddau, cyfleusterau hamdden a chysylltiadau â'r byd academaidd.

- Mae Parc Busnes Awyrofod Sain Tathan yn gyfleuster diogel sy'n cynnig canolfan hirdymor â chysylltiadau da ar gyfer y diwydiant awyrofod a chwmnïau eraill sydd angen mynediad i ardal ochr yr awyr ac i ardaloedd eraill.

Y weledigaeth gyffredinol ar gyfer yr Ardal Fenter yw cryfhau'r seiliau sy'n bodoli eisoes er mwyn sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i Sain Tathan - Maes Awyr Caerdydd ddod yn ganolfan ragoriaeth a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer y diwydiant awyrofod ac ar gyfer gweithgareddau cynnal a chadw, atgyweirio a gweithrediadau (MRO).

Mae'r cynnydd diweddar yn yr Ardal i gefnogi'r amcanion hyn yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r gwaith ar Droeon Silstwn yn parhau a disgwylir iddo gael ei gwblhau erbyn diwedd 2014.

- Mae cydweithio agos rhwng Llywodraeth Cymru, ei chontractwr newydd ar gyfer rheoli'r maes awyr, Serco Ltd, a'r Weinyddiaeth Amddiffyn, wedi galluogi maes awyr Sain Tathan i agor saith diwrnod yr wythnos. Mae hyn wedi ei gwneud yn llawer haws marchnata'r Parc Busnes Awyrofod.

- Cafodd y gwaith ar yr atredfa ym Mharc Busnes Awyrofod Sain Tathan ei gwblhau yng ngwanwyn 2014, gan ddarparu gwelliant mawr i seilwaith y maes awyr.

- Mae contractwyr cwmni Bristow Helicopters, Balfour Beatty, wedi dechrau ar y gwaith o adeiladu'r cyfleuster gwerth £5 miliwn i'r gwasanaeth Chwilio ac Achub ar gyfer de Cymru a de-orllewin Lloegr. Mae'r cyfleuster i fod i gael ei gwblhau yng ngwanwyn 2015.


- Mae cwmni Dragon Engineering Ltd wedi cymryd meddiannaeth o un o'r siediau awyrennau mawr ar ochr ddeheuol y maes awyr ac mae wrthi'n recriwtio ei dîm craidd er mwyn dechrau gweithio yn y farchnad cynnal a chadw, atgyweirio a gweithrediadau Hedfan Cyffredinol.

- Yn ychwanegol at ei gyfleuster cynnal a chadw, atgyweirio a gweithrediadau y mae'n ei weithredu eisoes yn Sain Tathan, mae cwmni Cardiff Aviation Ltd wedi sefydlu cyfleuster hyfforddi yn Sied Awyrennau Norman ar Faes Awyr Caerdydd.

## Darpariaeth drawsbynciol i Ardaloedd Menter Cymru

Yn ogystal â nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer darpariaeth ar draws yr Ardaloedd Menter, mae'r Byrddau hefyd wedi ystyried a gwneud argymhellion ar gyfres o feysydd darpariaeth trawsbynciol sy'n allweddol i lwyddiant yr Ardaloedd Menter yn y dyfodol. Mae'r meysydd hyn yn cynnwys trafnidiaeth, TGCh a sgiliau. Mae'r gwaith sy'n cael ei gyflawni ar draws y meysydd hyn yn cynnwys:

## Trafnidiaeth



Mae'r buddsoddiad arfaethedig mewn trafnidiaeth yn yr Ardaloedd Menter yn cael ei adolygu i sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio i wella cysylltiadau trafnidiaeth i bob un o'r Ardaloedd Menter, cyd-fynd â blaenoriaethau trafnidiaeth Byrddau'r Ardaloedd Menter a sicrhau'r effaith economaidd fwyaf posibl.

Mae Bwrdd Ardal Fenter Canol Caerdydd yn rhanddeiliad allweddol yn Adroddiad Tasglu Trafnidiaeth Integredig De-ddwyrain Cymru. Roedd yr Ardaloedd Menter hefyd yn un o'r

ystyriaethau yn y cynigion ar gyfer system fetro i gefnogi twf economaidd ac adfywio mewn lleoliadau allweddol yng Nghaerdydd, gan gynnwys Maes Awyr Caerdydd, a ledled y De-ddwyrain.

Mae'r Tasglu Gweinidogol ar Drafnidiaeth Gogledd Cymru, sy'n cynnwys aelodau o Fyrddau Ardaloedd Menter Ynys Môn, Glannau Dyfrdwy ac Eryri, wrthi'n llunio cyngor ar y cysylltiadau trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru sy'n ofynnol i gynorthwyo â datblygiad economaidd a chymdeithasol. Mae i fod i gyflwyno ei adroddiad i'r Gweinidog erbyn diwedd 2014.

Mae ymyriadau trafnidiaeth penodol i ardaloedd yn cynnwys:

- Mae gwaith yn mynd rhagddo ar reilffordd a gorsaf newydd yng Nglynebwy ar gost o £11.5 miliwn. Bydd hyn yn ymestyn y cysylltiadau o Barcffordd Glynebwy i safle 'Y Gweithfeydd' yn yr Ardal Fenter, fel elfen gychwynnol o raglen ehangach i greu rhwydwaith trafnidiaeth mwy integredig ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd y buddsoddiad hwn yn hwb arall i'r gwaith o adfywio'r ardal leol, sy'n cyd-fynd ag uchelgais y Bwrdd.

- Un o flaenoriaethau allweddol Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau a Thasglu Murco yw parhau i wella'r A40. Cam nesaf y gwaith yw'r A40 o Landdewi Felffre i Benblewin. Ar ôl cael ei gwblhau bydd y cynllun yn gwella amserau teithio a dibynadwyedd symud pobl, nwyddau a gwasanaethau ar hyd y ffordd ac yn gwella hygyrchedd i ac o Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau, yn ogystal â gwella diogelwch ar y ffordd ac ansawdd aer a lleihau gwahanu ardaloedd o boptu'r ffordd a sŵn traffig. Mae'r gwaith i fod i ddechrau yn 2017 a dylai'r darn newydd fod yn agored i draffig yn 2019. Oddeutu £55 miliwn fydd y gost i gyd.

- Cymeradwywyd cyllid ar gyfer gwaith dylunio, gwaith hwylustod a gwaith adeiladu gwelliannau i'r gyfnewidfa trafnidiaeth gyhoeddus yn ymyl gorsaf reilffordd Doc Penfro.

- Bydd datblygu'r achos busnes ar gyfer moderneiddio rheilffyrdd Gogledd Cymru a bwrw ymlaen â gwelliannau i'r A55, gan gynnwys Twneli Conwy, yn cefnogi uchelgeisiau Byrddau Ardaloedd Menter Glannau Dyfrdwy, Eryri ac Ynys Môn.


- Yn Eryri, cymeradwywyd cyllid ar gyfer gwaith mesur tir a dylunio ar gyfer cynllun ffordd yr A496 er mwyn gwella mynediad i faes awyr Llanbedr. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud gan Gyngor Gwynedd.

- Ar Lannau Dyfrdwy, mae'r gwaith i wella llif y traffig ar y B5129 trwy Shotton a Queensferry wedi cael ei gwblhau.

- Mae astudiaeth trafnidiaeth gan AMEC wedi cael ei chyflawni ar Ynys Môn ac mae ei hargymhellion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r adolygiad ehangach o flaenoriaethau trafnidiaeth.

- Cymeradwywyd cyllid i Gyngor Sir Ynys Môn wneud gwaith mesur tir, dylunio a phrynu tir ar gyfer rhannau allweddol o Ffordd Gyswllt Llangefni.

## TGCh



### Cynllun Taleb Gwibgyswllt

Yn hwyr ym mis Tachwedd lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Taleb Gwibgyswllt. Bydd y Cynllun yn cynorthwyo busnesau gyda chyllid o hyd at £10,000 i dalu'r costau cyfalaf sy'n gysylltiedig â darparu cysylltiad data cyflym iawn. Mae Ardaloedd Menter wedi cael eu blaenoriaethu i gael eu cynnwys yn y cynllun.

Mae mwy o wybodaeth am y cynllun, gan gynnwys manylion sut i wneud cais a'r meini prawf cymhwysedd ar gael ar www.wales.gov.uk/bandeang.

**Cyflymu Cymru**

Mae Ardaloedd Menter yn un o'r blaenoriaethau o dan raglen Cyflymu Cymru. Mae cynllun cyflwyno Cyflymu Cymru'n cymryd i ystyriaeth ddemograffeg a thopograffi Cymru, ynghyd â'n blaenoriaethau economaidd, gan gynnwys Ardaloedd Menter. Bydd ein buddsoddiad gyda BT yn darparu mynediad cyfanwerthu cyfartal i ddarparwyr cyfathrebu, gan hybu dewis o ddarparwyr gwasanaethau rhyngrwyd ym mhob Ardal.

- Yn Ardal Fenter Ynys Môn, mae'r gwaith ar yr holl ardaloedd cyfnewidfa ffôn sy'n cynnwys yr wyth safle strategol wedi cael ei gwblhau ac mae gwaith ar y gweill i alluogi'r cabinetau sydd ar ôl, mewn ardaloedd fel y Gaerwen, i archebu Cyflymu Cymru.

- Yn Ardal Fenter Canol Caerdydd, rydym yn ymchwilio i amrywiaeth o ddewisiadau, gan gynnwys y fenter dinasoedd cysylltiadau cyflym, i gynorthwyo busnesau trwy ddarparu seilwaith TGCh. Mae hyn yn cynnwys lansio Cyfnewidfa Rhyngrwyd Caerdydd – cam arloesol i Gymru.

- Yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy, mae'r gwaith o gyflwyno Cyflymu Cymru'n parhau. Mae cyfnewidfeydd Cei Connah, Ystad Ddiwydiannol Penarlâg a Sealand wedi cael eu galluogi ac mae'r gwaith i alluogi'r cabinetau yn y mannau hyn yn parhau.

- Yn Ardal Fenter Glyn Ebwy, mae rhannau o ardaloedd cyfnewidfa ffôn Brynmawr, Tredegar a Glynebwy yn weithredol erbyn hyn ac mae gwaith yn parhau i alluogi'r cabinetau sydd ar ôl.

- Yn Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau, mae'r gwaith cyflwyno yn Hwlffordd wedi mynd ymlaen yn dda, ac Ystad Ddiwydiannol Llwyn Helyg oedd un o'r mannau cyntaf i allu archebu Band Eang Cyflym Iawn.

- Yn Ardal Fenter Eryri, cafwyd heriau peirianyddol sylweddol yn y mannau hyn, sy'n wledig iawn. Fodd bynnag, mae gwaith peirianyddol yn mynd rhagddo ers tro yn Nhrawsfynydd a Llanbedr.

- Yn Ardal Fenter Sain Tathan a Maes Awyr Caerdydd, mae cyfnewidfeydd Llanilltud Fawr a'r Rhws yn weithredol erbyn hyn, ond mae angen rhagor o waith i alluogi cyfnewidfa Sain Tathan.

Hefyd mae nifer o ymyriadau ychwanegol o ran seilwaith TGCh y bwriedir iddynt fod o fudd i'r Ardaloedd Menter yn cael sylw. Mae hyn yn cynnwys edrych ar y ffordd y gellir sicrhau bod cyfleusterau cyfathrebu lled band uchel iawn ar gael yn ehangach er mwyn gwella gwasanaethau cyfathrebu symudol a WiFi. Mae gwaith ymchwilio a chyfres o astudiaethau ar y gweill, a rhoddir blaenoriaeth i gymorth ar gyfer darpariaeth mewn Ardaloedd Menter yn yr holl feysydd hyn.

## Datblygu Sgiliau



**Strategaeth Sgiliau Llywodraeth Cymru**

Mae Datganiad Polisi Llywodraeth Cymru ar Sgiliau, a lansiwyd ym mis Ionawr 2014, yn nodi'r weledigaeth hirdymor ar gyfer cyflogaeth a sgiliau yng Nghymru dros y 10 mlynedd nesaf. Un o'r ymrwymiadau sylfaenol yn y datganiad polisi oedd cyhoeddi Cynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau, sy'n nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru'n cryfhau'r ffordd o gyflenwi sgiliau'n rhanbarthol, gan adeiladu ar y strwythurau sgiliau rhanbarthol sy'n bodoli eisoes ledled Cymru.

Mae'r Cynllun wedi sefydlu tair Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar draws Cymru i sbarduno buddsoddi mewn sgiliau a sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i'w heconomïau lleol. Bydd pob partneriaeth yn datblygu a chyhoeddi Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol blynyddol sy'n nodi blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi yn ogystal â gofynion a chyfleoedd lleol; bydd y rhain yn cynnwys blaenoriaethau a nodir gan Fyrddau'r Ardaloedd Menter. Caiff y Cynlluniau cyntaf eu llunio erbyn mis Mawrth 2015.

**Camau Gweithredu Penodol i Ardal Fenter**

Ar draws yr Ardaloedd Menter, rydym yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu a chyflenwi cymorth sgiliau i ddiwallu'r anghenion cyflogaeth a sgiliau a nodwyd ym mhob Ardal. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Ardal Fenter Ynys Môn**
Mae rhaglenni Llywodraeth Cymru, Datblygu'r Gweithlu a Sgiliau Twf Cymru wedi cynorthwyo busnesau yn yr Ardal Fenter i fuddsoddi mewn datblygu sgiliau eu gweithlu.

- **Ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Wylfa**

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyllid ychwanegol i Grŵp Llandrillo Menai (2014-2017) i flaengynllunio a dylunio'r gallu i ddiwallu'r angen am sgiliau sy'n gysylltiedig â her Ynys Ynni Môn. Mae'r ddarpariaeth gynlluniedig yn cynnwys:

- Prentisiaethau cysylltiedig ag ynni
- Gwella sgiliau oedolion
- Datblygu'r cwricwlwm trwy secondai o'r diwydiant
- Datblygu'r staff
- Swyddog cyswllt y gadwyn gyflenwi
- Mwy o waith i ddatblygu cydweithredu ag ysgolion ar bynciau STEM ledled pedair sir y Gogledd

Mae'r cyllid hwn yn cynnig y cyfle i gyflawni rhaglen sgiliau niwclear, ac ar yr un pryd paratoi'r coleg i sicrhau'r cyfleoedd mwyaf posibl i ehangu'n goleg Niwclear Cenedlaethol.

Mae Grŵp Llandrillo Menai, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru, Horizon Nuclear Power a Chynghorau Ynys Môn, Conwy a Gwynedd, yn cyflawni cynllun 'Cwmni Prentis Menai' i hyfforddi prentisiaid â sgiliau niwclear ar gyfer y dyfodol, ac mae 59 o bobl ifanc yn cymryd rhan ynddo eisoes.

Mae Llywodraeth Cymru'n rhan-ariannu swydd yn yr Academi Sgiliau Genedlaethol Niwclear (NSAN) i weithio gyda phartneriaid Ynys Ynni Môn i ddatblygu isadrannau o'u cynllun sgiliau o'r enw "INSPIRE", sy'n canolbwyntio ar ofynion sgiliau Wylfa Newydd.  Mae swyddogion yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid allweddol a gweithgorau sgiliau cenedlaethol i ddeall yr anghenion sgiliau ac i ddatblygu a chefnogi ymyriadau sgiliau.

**Ardal Fenter Canol Caerdydd**

Mae rhaglenni Datblygu'r Gweithlu a Sgiliau Twf Cymru wedi darparu cymorth ariannol uniongyrchol i fusnesau yn Ardal Fenter Canol Caerdydd, gan helpu busnesau i dyfu a chynorthwyo cyflogeion a recriwtiaid newydd i gael hyfforddiant a sgiliau.

Un o'r datblygiadau allweddol yn yr Ardal Fenter yw creu campws newydd i Goleg Caerdydd a'r Fro. Bydd y campws newydd hwn, sydd o'r math diweddaraf ac a gostiodd £45 miliwn, yn gwasanaethu unigolion a chyflogwyr ledled y rhanbarth a bydd yn lle newydd gwerthfawr a chyffrous i'r gymuned a chyflogwyr lleol ei ddefnyddio yn yr ardal. Mae'r prosiect i fod i gael ei gwblhau yn haf 2015, ac mae'r cohort cyntaf o fyfyrwyr i fod i ddechrau cyrsiau ar y campws newydd yn hydref 2015.

**Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy**

Mae rhaglenni Datblygu'r Gweithlu a Sgiliau Twf Cymru wedi darparu cymorth ariannol uniongyrchol i fusnesau yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy gwerth mwy na £300,000 i ddiwallu eu hanghenion o ran datblygu'r gweithlu.

Ym maes cymorth a datblygiad sgiliau yn Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy y prif ffocws yw prentisiaethau. Mae Bwrdd yr Ardal Fenter wedi comisiynu astudiaeth i edrych ar ddatblygu Canolfan Ragoriaeth Uwch Gynhyrchu, gan ganolbwyntio'n bennaf ar ddarparu sgiliau a chyflenwi gweithwyr medrus. Mae'r gwaith hwn yn ymchwilio i'r ffordd orau o wneud y mwyaf o'r sgiliau a'r ddarpariaeth sy'n bodoli eisoes yn yr Ardal Fenter er mwyn cynorthwyo'r Ardal Fenter a diwydiant.

Mae Cynllun Rhannu Prentisiaeth yn cael ei gyflenwi gan Goleg Cambria ar y cyd gydag Ardal Fenter Glannau Dyfrdwy.

**Ardal Fenter Glyn Ebwy**
Mae sgiliau'n amlwg o hyd yn y trafodaethau yng Nglynebwy. Comisiynwyd Athrofa Prifysgol Blaenau'r Cymoedd (UHOVI) gan is-grŵp sy'n canolbwyntio ar sgiliau a hyfforddiant ac sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd yr Ardal Fenter a swyddogion Llywodraeth Cymru, i lunio adroddiad sy'n ceisio nodi'r anghenion sgiliau presennol a rhagamcanol. Ar hyn o bryd mae'r Bwrdd yn ystyried cyfres o ddewisiadau sy'n gysylltiedig â chanfyddiadau'r adroddiad, sy'n cynnwys datblygu model rhannu prentisiaeth, ailsgilio graddedigion di-waith a datblygu canolfan hyfforddiant arbenigol yn yr Ardal Fenter. Mae'r Bwrdd hefyd wedi parhau â'i ddeialog gyda'r datblygwyr sy'n gysylltiedig â chynllun arfaethedig Cylchffordd Cymru, ac mae eu hanghenion sgiliau'n cael eu cynnwys yn y canfyddiadau a gynhyrchwyd gan yr adroddiad.

**Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau**
Ym maes cymorth a datblygiad sgiliau yn Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau y prif ffocws yw prentisiaethau. Rydym yn gweithio'n agos gyda Choleg Sir Benfro a chyflogwyr allweddol i weithredu Cynllun Rhannu Prentisiaeth a fydd yn darparu cymorth cyflogaeth i'r sector ynni yn yr Ardal. Nod y cynllun yw cynorthwyo â'r gwaith o hyfforddi hyd at 12 prentis, a datblygu'r sgiliau peirianneg y mae eu hangen ar gyfer twf yn y rhanbarth yn y dyfodol. Mae cyflogwyr mawr yn y sector ynni sy'n noddwyr yn darparu cymorth ariannol sylweddol i'r cynllun, ac felly'n cynorthwyo â buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.

Mae Bwrdd yr Ardal Fenter yn ymchwilio i'r potensial i ddatblygu academi sgiliau ar gyfer gweithrediadau ynni, peirianyddol a morol i Sir Benfro. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar sicrhau sgiliau i gynorthwyo'r amrywiaeth fawr o gyflenwyr i'r Ardal.

Mae gwaith ymgysylltu â'r Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol ar gyfer De-Orllewin a Chanolbarth Cymru ar y gweill i ddylanwadu ar y ffordd mae cyflenwi'r ddarpariaeth sgiliau'n diwallu anghenion cyflogwyr rhanbarthol.

**Ardal Fenter Eryri**
Rydym yn cydnabod yr her wahanol iawn yn Ardal Fenter Eryri a'r cam presennol o waith sy'n cael ei wneud i ddiffinio cynigion clir a all gynyddu i'r eithaf y potensial economaidd a'r potensial o ran creu swyddi sydd gan y ddau safle.

Mae prosiect Llunio'r Dyfodol, sydd wedi'i fwriadu i roi amser i gyflogeion feddwl, ymchwilio a chynllunio i wella sgiliau ar gyfer y dyfodol, yn agored i'r holl staff, gweithwyr a gyflenwir gan asiantaethau a chontractwyr yng ngorsafoedd pŵer niwclear Wylfa a Thrawsfynydd, er mwyn rhoi i bobl y sgiliau a hyblygrwydd mwyaf posibl i wynebu her dyfodol ansicr o ran cyflogaeth ar ôl datgomisiynu. Mae Bwrdd yr Ardal Fenter yn gweithio'n agos gyda Magnox i ganfod cyfleoedd ehangach am gyflogaeth ledled y Gogledd a'r Canolbarth er mwyn sicrhau y caiff sgiliau eu cadw a bod y rheiny yn Nhrawsfynydd mewn sefyllfa dda i geisio cyflogaeth yn y dyfodol.

Gyda dyheadau safle Llanbedr i ddod yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer Systemau Cerbydau Awyr a Reolir o Bell, mae lle i ddiffinio gofynion yn y dyfodol agosach o ran datblygu sgiliau ac i ennyn rhagor o ddiddordeb mewn pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM) yn lleol ymysg ysgolion. Atgyfnerthodd y digwyddiad Ymgysylltu â Phobl Ifanc a

gynhaliwyd ar y safle ym mis Gorffennaf 2014 ymrwymiad Llywodraeth Cymru i annog mwy o bobl ifanc, yn enwedig merched, i ddilyn gyrfaoedd mewn gwyddoniaeth a pheirianneg a chwaraeodd ran bwysig hefyd mewn dangos y cyfleoedd am yrfa a chyflogaeth yn y dyfodol sydd ar gael yn lleol i bobl ifanc. Mae pynciau STEM yn hanfodol i sicrhau bod gan Gymru weithlu sy'n gystadleuol yn fyd-eang ac ar flaen y gad ym meysydd twf ac arloesedd – ac yn ychwanegol at hyn mae'r cyfleoedd sylweddol yn y dyfodol ar gyfer datblygu sgiliau.

**Ardal Fenter Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd**
Mae Bwrdd yr Ardal Fenter yn gweithio'n agos gyda phartneriaid allweddol i annog mewnfuddsoddwyr i symud i'r Ardal Fenter, ac mae gwaith yn mynd rhagddo ar nifer o brosiectau.

Ar y cyd gyda Choleg Caerdydd a'r Fro rydym yn ymchwilio i'r potensial o gyflenwi darpariaeth arbenigol i fewnfuddsoddwyr ac i gyflogwyr yr Ardal Fenter o'r Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Hyfforddiant Awyrofod ar Faes Awyr Caerdydd.

Rydym wedi parhau i gynorthwyo British Airways Maintenance Cardiff trwy raglen Sgiliau Twf Cymru a thrwy raglen gwella sgiliau fewnol arbenigol.

## Cynllun Ardrethi Busnes

Mae Cynllun Ardrethi Busnes Ardaloedd Menter Cymru, a lansiwyd yn 2012/13, yn cynnig cymorth ariannol â'u hardrethi busnes i fusnesau bach a chanolig yn y saith Ardal Fenter yng Nghymru.

Yn 2012/13, cafwyd 61 o geisiadau am gymorth gydag ardrethi busnes. O'r rhain, cymeradwywyd 39 o geisiadau, gan gynnig cymorth gwerth mwy na £750,000 i fusnesau sy'n cyflogi mwy na 1,200 o bobl ar hyn o bryd a chan addo bron £2,500,000 yn ystod blynyddoedd ariannol 2012/13, 2013/14 a 2014/15.

| **2012/13** | **Nifer y ceisiadau a gafwyd** | **Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd** |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 7 | 5 |
| Canol Caerdydd | 0 | 0 |
| Glannau Dyfrdwy | 14 | 9 |
| Glyn Ebwy | 6 | 6 |
| Dyfrffordd y Ddau Gleddau | 24 | 17 |
| Eryri | 0 | 0 |
| Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd | 2 | 2 |
| Ddim mewn Ardal Fenter | 8 | 0 |
| **CYFANSWM** | **61** | **39** |

Yn 2013/14, cafwyd 55 o geisiadau am gymorth gydag ardrethi busnes. O'r rhain, cymeradwywyd 33 o geisiadau (mae 27 wedi cael eu cwblhau'n llwyddiannus ac mae 6 yn dal i fod yn destun gwaith). Bydd darparu'r rhain yn rhoi mwy na £900,000 i fusnesau sy'n cyflogi 900 arall o bobl, gan addo £2,012,963 yn ystod blynyddoedd ariannol 2013/14, 2014/15 a 2015/16.

| **2013/14** | **Nifer y ceisiadau a gafwyd** | **Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd** |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 1 | 0 |
| Canol Caerdydd | 4 | 2 |
| Glannau Dyfrdwy | 26 | 22 |
| Glyn Ebwy | 3 | 2 |
| Dyfrffordd y Ddau Gleddau | 11 | 7 |
| Eryri | 1 | 0 |
| Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd | 0 | 0 |
| Ddim mewn Ardal Fenter | 9 | 0 |
| **CYFANSWM** | **55** | **33** |

Yn y flwyddyn ariannol gyfredol, cafwyd 87 o geisiadau am gymorth gydag ardrethi busnes yn dilyn cyfnod ymgeisio estynedig o fis Ebrill i ddechrau mis Mehefin. O'r rhain, mae 62 o geisiadau wedi cael eu cymeradwyo gan ddarparu mwy na £3 miliwn i fusnesau yn ystod blynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16.

| 2013/14 | Nifer y ceisiadau a gafwyd | Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd |
|---|---|---|
| Ynys Môn | 5 | 5 |
| Canol Caerdydd | 8 | 5 |
| Glannau Dyfrdwy | 38 | 30 |
| Glyn Ebwy | 4 | 3 |
| Dyfrffordd y Ddau Gleddau | 21 | 16 |
| Eryri | 2 | 2 |
| Sain Tathan – Maes Awyr Caerdydd | 3 | 1 |
| Ddim mewn Ardal Fenter | 6 | 0 |
| **CYFANSWM** | **87** | **62** |

Mae'r cymorth a ddarperir trwy'r Cynllun yn helpu i leddfu baich ardrethi busnes ar fusnesau bach a chanolig cymwys yn yr Ardaloedd Menter, gan eu helpu i ganolbwyntio adnoddau ar swyddi a thwf.

## Lwfansau Cyfalaf Uwch

Mae Trysorlys Ei Mawrhydi'n cynnig Lwfansau Cyfalaf Uwch ar rai safleoedd penodol mewn nifer o Ardaloedd Menter dynodedig ledled y Deyrnas Unedig lle mae pwyslais mawr ar weithgynhyrchu. Mae'r Lwfansau hyn yn galluogi busnesau i hawlio lwfans blwyddyn gyntaf o100% ar gyfer cost cyfalaf buddsoddiad mewn peirianwaith a pheiriannau cymwys a wneir ar ôl Ebrill 2012 a chyn 31 Mawrth 2020 (mae dyddiad cau'r cynllun wedi cael ei ymestyn yn ddiweddar gan y Trysorlys o 2017 i 2020). Yng Nghymru, mae'r Lwfansau hyn ar gael ar bedwar safle penodol yn Ardaloedd Menter Glannau Dyfrdwy, Dyfrffordd y Ddau Gleddau a Glyn Ebwy.

Mae mapiau manwl yn dangos lle mae'r Lwfansau hyn yn gymwys wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Ardaloedd Menter Cymru (www.enterprisezones-wales.gov.uk).

## Gorchmynion Datblygu Lleol

Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymchwil i Orchmynion Datblygu Lleol. Dosbarthwyd Adroddiad Ymchwil ar Orchmynion Datblygu Lleol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru tua diwedd 2013.

Un o'r pethau sy'n cael sylw yn yr Adroddiad Ymchwil yw'r ffordd y gall y Gorchmynion hyn fod o fudd mewn Ardaloedd Menter ac yn gynnar yn 2014 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bapur sy'n crynhoi canfyddiadau'r adroddiad ac yn rhoi braslun o fuddion posibl Gorchmynion Datblygu Lleol i Ardaloedd Menter Cymru. Gellir gweld y ddau bapur ar www.wales.gov.uk.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru bedair sioe deithiol ar draws Cymru yn ystod misoedd Mawrth ac Ebrill 2014 – yng Nghonwy, Merthyr, Abertawe a Rhondda Cynon Taf – i godi

ymwybyddiaeth o fuddion y Gorchmynion hyn ymysg Awdurdodau Lleol Cymru. Cymerodd cynrychiolwyr o chwech o'r Awdurdodau lle ceir Ardaloedd Menter ran yn y digwyddiadau.

Er y gall Llywodraeth Cymru a Byrddau Ardaloedd Menter gefnogi a hybu manteisio ar y Gorchmynion hyn, yn y pen draw mater i awdurdodau cynllunio lleol yw manteisio arnynt.

## Datblygu Busnes a Marchnata

Mae sbarduno twf busnesau sy'n bodoli eisoes a busnesau newydd yn allweddol i lwyddiant yr Ardaloedd Menter. Yn y cyd-destun hwn mae cyfleu buddion yr Ardaloedd, eu harbenigeddau perthnasol a chymorth pwrpasol yn hanfodol.

Canolbwyntiwyd ar farchnata'r Ardaloedd Menter ers y dechrau. Mae gwefan benodol (http://www.business.wales.gov.uk/enterprisezones/cy) yn cael ei hadnewyddu ar hyn o bryd, ac mae'r gwaith o ddarparu arwyddion newydd i nodi'r ffiniau a'r safleoedd allweddol yn yr Ardaloedd yn parhau.

Mae pecyn o ddeunyddiau marchnata wedi cael ei ddatblygu ac mae'n cynnwys llenyddiaeth, stondinau arddangos, fideos hyrwyddol ac animeiddiadau 'o'r awyr' 3D ar gyfer pob un o'r Ardaloedd. Bydd rhaglen gynhwysfawr o weithgarwch marchnata, sy'n cynnwys gwaith cyffredinol a gwaith penodol i'r Ardaloedd unigol i barhau i hyrwyddo'r Ardaloedd, yn cael ei chyflawni yn ystod 2014/15. Bydd hyn yn cynnwys datblygu ystafelloedd marchnata ar safleoedd dynodedig, deunydd hyrwyddol a digwyddiadau penodol i Ardaloedd Menter wedi'u hanelu at gynulleidfa leol a rhyngwladol, fel Sioe Awyr Farnborough a Chynhadledd ac Arddangosfa Renewable UK.

Rydym yn gweithio i sicrhau y caiff pob Ardal ei hyrwyddo'n helaeth fel rhan o'r arlwy ehangach o ran Sectorau. I'r perwyl hwn, mae Ardaloedd Menter yn cael eu cynnwys mewn gwaith marchnata a digwyddiadau ar gyfer sectorau, ac yn yr holl waith o farchnata Cymru trwy swyddogaeth masnach a mewnfuddsoddi Llywodraeth Cymru.

## Mesur cynnydd ar draws Ardaloedd Menter – Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae Byrddau'r Ardaloedd Menter wedi cymeradwyo set o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a fydd yn galluogi Llywodraeth Cymru i fesur perfformiad yr Ardaloedd Menter. Cafodd y rhain eu cyhoeddi yn hwyr yn 2013, ynghyd â thargedau ar gyfer y Dangosyddion i'r flwyddyn ariannol 2014/15.

Mae'r Dangosyddion hyn wedi cael eu datblygu i fesur cynnydd mewn meysydd allweddol, sy'n cynnwys cymorth busnes, datblygu tir, lefel buddsoddiad ac ymholiadau yn ogystal â swyddi ar draws yr Ardaloedd Menter. Cafodd Dangosyddion Perfformiad Allweddol alldro ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2012/13 a 2013/14 eu cyhoeddi ym mis Mai 2014 ar www.wales.gov.uk.

Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth wedi ymrwymo i gyhoeddi cynnydd yn erbyn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol bob chwe mis a bydd y cyhoeddiad nesaf cyn diwedd 2014.

## Arolwg Hydredol

Dechreuodd arolwg o gwmnïau yn Ardaloedd Menter Cymru yn hwyr yn 2013 i helpu i wella'r ddealltwriaeth o'r ffordd mae Ardaloedd Menter yn cynorthwyo busnesau. Bydd yr arolwg yn darparu gwaelodlin o wybodaeth y gellir mesur cynnydd yn ei herbyn dros amser.

Adroddwyd ar gam cyntaf yr arolwg ym mis Mawrth 2013 a chafwyd y crynodeb o'i ganfyddiadau (a gyhoeddir ar www.wales.gov.uk). Mae ail gam yr arolwg ar y gweill ar hyn o bryd a chaiff ei ganfyddiadau eu cyhoeddi yn gynnar yn 2015.

## Camau nesaf

Mae llwyddiant yr Ardaloedd yn dibynnu yn y pen draw ar y swyddi a'r twf y bydd y sector preifat yn eu cynhyrchu. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi'r fath weithgarwch gan y sector preifat trwy ganolbwyntio ar gyflawni prosiectau ac allbynnau llwyddiannus yn unol â blaenoriaethau'r Byrddau.

Bydd Byrddau'r Ardaloedd Menter a arweinir gan y sector preifat yn dal i roi cyngor yn rheolaidd ar flaenoriaethau yn ogystal ag adroddiadau rheolaidd ar gynnydd a gweithredu. Bydd y cyngor parhaus gan Fyrddau'r Ardaloedd Menter yn llunio'r ffordd y caiff pob Ardal ei chyflenwi ac yn cynorthwyo â'r gwaith o flaenoriaethu prosiectau ychwanegol a fydd yn cynorthwyo'r Ardaloedd Menter ymhellach i ddarparu swyddi, twf a chyfoeth i Gymru.